# Y Grŵp Trawsbleidiol

28 Mehefin 2010

Annwyl

**Cais am Wybodaeth.**

Mewn ymateb i'ch cais a ddaeth i law ar 10 Mehefin 2010, pan wnaethoch ofyn;

*Hoffwn wybod faint y mae'n ei gostio i redeg y Grwp Trawsbleidiol ar Gwrw a Thafarndai, a faint y bydd ei ddigwyddiadau presennol a'r rhai sydd i ddod yn ei gostio. Hoffwn wybod hefyd o ble y daw'r arian ar gyfer y digwyddiadau hyn.*

Nid yw grwpiau trawsbleidiol yn grwpiau Cynulliad ffurfiol ac nid oes ganddynt rol ffurfiol mewn datblygu polisi. Er bod y grwpiau'n cael defnyddio cyfleusterau adeiladau'r Cynulliad, nid ydynt yn cael defnyddio gwasanaethau staffio'r Cynulliad na chyllideb y Cynulliad. Rhaid i'r grwpiau unigol dalu'r costau rhedeg eu hunain.

O ganlyniad, nid yw'r Cynulliad yn cadw'r wybodaeth rydych wedi gofyn amdani.

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn
http://www.cynulliadcymru.org/abthome/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm

Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn.

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn gywir yn eich barn chi, neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn • Tel: 029 2082 1813
Ffacs • Fax: 029 2082 1813
Ebost • Email: Alison.Rutherford@wales.gsi.gov.uk

Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae’r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i’r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â’r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio’r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner’s Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Yn gywir

Alison Rutherford
Y Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru